Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Tacsis a cherbydau hurio preifat: cod gwisg

Canllaw ar god gwisg gyrrwr.

Cyhoeddwyd gyntaf: 22 Mawrth 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 22 Mawrth 2021

Cydnabyddir, yn y diwydiant tacsis, fod Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn chwarae rôl bwysig wrth gyfleu delwedd gadarnhaol o'r ardal.

Er mwyn sicrhau bod y diwydiant cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn cyfleu delwedd broffesiynol a bod gyrwyr yn gyrru'n ddiogel, mae'r cod gwisg canlynol yn gymwys:

1. Dylai dillad fod yn lân, mewn cyflwr da a heb eu difrodi
2. Ni ddylai trowsus byr na sgertiau fod yn uwch na'r pengliniau
3. Dylai esgidiau ffitio o amgylch sawdl y droed
4. Ni ddylid gwisgo cyflau ('hoods') dros y pen wrth yrru

Mae enghreifftiau o ddillad derbyniol yn cynnwys:

- Trowsus/jîns trwsiadus
- Crys

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-cod-gwisg-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Crys Ti trwsiadus
- Trowsus byr trwsiadus
- Crysau Polo
- Siwmperi

Mae safonau gwisg annerbyniol yn cynnwys:

- Dillad ac arnynt sloganau neu graffigwaith o natur sarhaus/awgrymog
- Dillad brwnt, drewllyd, sydd wedi colli lliw neu wedi'u difrodi
- Esgidiau megis fflip-fflops neu 'sliders' nad oes ganddynt strapiau sawdl
- Sodlau uchel
- Capiau pêl fas neu fathau eraill o wisg pen sy'n cuddio'r wyneb
- Dillad nad ydynt yn gorchuddio'r ysgwyddau na rhan uchaf y breichiau megis festiau
- Dillad nad ydynt yn gorchuddio'r frest neu'r bol megis topiau â gwddf isel neu 'crop tops'.

Nid yw'r rhestrau uchod yn gynhwysfawr a gall fod safonau gwisg eraill nad ydynt yn dderbyniol, ym marn Swyddogion Awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu. Gall methu â chydymffurfio â'r cod gwisg arwain at rybudd ysgrifenedig. Gall methiannau parhaus i gydymffurfio ar fwy na dau achlysur o fewn 12 mis arwain at atgyfeirio'r gyrrwr at y Pwyllgor Trwyddedu er mwyn iddo benderfynu ar unrhyw gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-cod-gwisg-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Tacsis a cherbydau hurio preifat: cod gwisg** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-cod-gwisg-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-cod-gwisg-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.